

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3ydd Tachwedd 2020 (*trwy gyfrwng TEAMS*)

2164 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a fynegodd lawenydd yr aelodau o glywed am enedigaeth mab i'r Cynghorydd Branwen Haf. Dymunwyd yn dda iawn i'r teulu ar ddyfodiad Cymro bach newydd i'n bro.

Nid oedd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

Mynegodd Karl Jones ei fwriad i ymddiswyddo o'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd pwysau gwaith. Diolchodd i'r Cyngor am y fraint o gael bod yn Gyngorydd ac am y mwynhad o gael cyfle i gyfrannu i'r gymdeithas. Yn ei farn ef, meddai, mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn cael ei gydnabod yn eang fel cyngor gweithgar, cryf, llwyddiannus a gofalgwr o'r gymuned.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad yr aelodau a'r gymuned gyfan o gyfraniad amhrisiadwy Karl Jones ar hyd cyfnod o ddeunaw mlynedd fel Cynghorydd. Cyfeiriodd yn arbennig ar ran allweddol Karl Jones wrth gael maes parcio i'r fynwent, ail wneud Llwybr y Cei, cynllunio a gosod mainc coffa Llew Gwent, trefniadau'r Nadolig, ac at ei broffesiynoldeb wrth gynllunio ac arolygu gwelliannau i'r cyfleusterau cyhoeddus. Dymunwyd yn dda iawn iddo ac i'r teulu yn y dyfodol.

Bydd y Clerc yn cychwyn y broses i lenwi'r sedd wag.

2165 Cofnodion: Cytunwyd ar gywirdeb cyfarfod dros y we ar Hydref 6ed, 2020.

2166 Materion y Clerc:

- i.** Darllenwyd ymatebion Cyngor Gwynedd a'r Heddlu i bryderon ardalwyr am yrru diofal ar hyd ffordd Pandy Mawr; mae Heddlu Gogledd Cymru yn edrych mewn i'r mater ac wedi addo cysylltu yn ôl gyda'r Cyngor.
- ii.** Adroddodd Arwel Lloyd Jones ar ddsbarthu'r bocsys bwyd a gyfrannwyd i bobl hŷn yr ardal gan Roger a Jacci, Lloches Don. Diolchodd i Modurdy Llanuwchllyn am gael benthyg cerbyd, i swyddogion yr Ysgoldy, i Alwyn Roberts am ei gymorth i gludo'r bocsys yno, i'r Cynghorwyr am eu cymorth wrth ddsbarthu, ac i'r Clerc am y trefniadau. Roedd y bocsys wedi eu derbyn yn ddiolchgar dros ben gan y trigolion. Cytunwyd i anfon at Roger a Jacci i fynegi diolch y Cyngor am eu haelioni. Diolchodd y Cadeirydd i Arwel Lloyd Jones am gydlyn mor effeithiol ac mewn byr amser.
- iii.** Llwybr Cŵn: darllenwyd llythyr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd yn datgan fod archwiliad wedi ei wneud yn ddiweddar o'r llwybr. Derbyniodd cadarnhad gan y cymydog y byddai'r llwybr yn cael ei chlirio a byddai ffens yn cael ei gosod. Yn y cyfamser, mae'n bosib osgoi'r rhwystrau, trwy garedigrwydd y cymydog yn caniatáu tramwyo ar hyd ei dir preifat ef.

2167 Adroddiad Cyngor Gwynedd: Diolchodd y Cynghorydd Alan Jones Evans i Karl Jones am ei waith dros y Cyngor ac am y cymorth mawr a roddodd iddo ef yn bersonol wrth sicrhau maes chwarae ym Maes y Pandy.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Er y tywydd mawr diweddar, roedd yn falch o ddweud na fu llifogydd i dai pentrefwyr. Dywedodd ymhellach fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cytuno i jetio'r draen wrth fynedfa maes parcio Ysgol O M Edwards er mwyn osgoi dŵr yn cronni yno. Derbyniodd gŵyn am lanast plastigion wrth safle ailgylchu cymunedol y Bont Newydd, Penantlliw; mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i lanhau'r llanast yn fuan iawn.

Y Clo Bach: mae sawl gwahanol gymorth i fusnesau ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy *Cefnogi Busnesau Gwynedd*; dywedodd y Cynghorydd ei fod yn barod i estyn cymorth i fusnesau lleol gael hyd i'r cymorth hwn.

2168 Sylfeini: Ni dderbyniwyd ymateb gan *Cynefin* i'r ohebiaeth ar y sefyllfa bresennol ym Maes y Pandy; dywedodd Alan Jones Evans na chafodd yntau ymateb. Addawodd y byddai'n ceisio eto cael cynnal trafodaeth gyda *Cynefin*, gyda'r bwriad o gael cynllun sy'n ymateb i anghenion yr ardal.

2169 Creu Cynllun Ardal:

Ymgynghori gyda thrigolion:

- i. Pobl hŷn – ni fu fawr o ymateb i'r llythyr a anfonwyd gyda'r bocsys bwyd; ymatebodd un person fod angen i ni gofio am blant hŷn sydd ar eu colled yn y dyddiau hyn.
- ii. Teuluoedd - darllenwyd ymateb i'r hyn a roddwyd ar gyfrwng cymdeithasol Ysgol O M Edwards
- iii. Pobl ifanc – bydd ymgynghoriad yn digwydd yn fuan

Lles ac iechyd:

Cafwyd trafodaeth ehangach ar y rhan o'r Cynllun Ardal sy'n ymwneud a lles ac iechyd y cyhoedd. Mae'r is-bwyllgor eisoes wedi nodi pwysigrwydd cynnal y rhwydwaith llwybrau. Cytunodd Alan Jones Evans i gael mewnbwn gan Gwyn Lloyd Evans i lunio'r Cynllun Ardal. Mae Arwel Morris, Uwch Warden Llyn Tegid, hefyd wedi mynegi dymuniad i gael ei gynnwys mewn trafodaethau ar lwybrau.

Panel Nadolig:

Derbyniwyd adroddiad Heledd Jones. Mae'r panel wedi gwneud cais i Barc Cenedlaethol Eryri am grant i'w wario ar declynnau lluniau digidol a pheiriannau recordio; cytunwyd i wahodd y Parchedig Carwyn Siddall i'r Panel er mwyn cydlynu gweithgareddau'r Nadolig.

Amlinellodd Heledd Jones y cynlluniau sydd ar droed pe byddai cyfraniad ariannol arall i'r gymuned. Trafodwyd lleoliad coeden Nadolig yng nghanol y pentref. Cytunwyd, pe byddai cyfraniad y dod i law, y byddai'n dod i'r Cyngor Cymuned, a'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am ei wario.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

2170 Adroddiadau Cyngorwyr:

- i. Eiddo: Dywedodd Karl Jones fod yr Adran Rheolaeth Adeiladu wedi cytuno i'r gwaith ar y toiledau. Cyhoeddodd fod y Cyngor wedi llwyddo i gael grant o £10,000 o Gist Gwynedd tuag at uwchraddio'r toiledau. Ychwanegodd Huw Antur fod Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf wedi cyflwyno cais pellach am £1,000 tuag at gynnal y toiledau o dan y grant annomestig; roedd y grant blaenorol o £10,000 trwy law Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf hefyd ar gael i'w wario ar gynnal y cyfleusterau. Diolchwyd i bawb am eu gwaith.
Cytunwyd i gynnal Is bwyllgor Cyfleusterau i drafod materion eraill, yn cynnwys cynnal a glanhau'r toiledau pan fydd y Cyngor yn barod i'w hagor i'r cyhoedd.
Dywedodd Karl Jones ei fod o'r farn bod angen sylw gyda *mortar* i'r wal wrth y fynwent; nid oes yr un pris wedi dod i law hyd yn hyn.
- ii. Diolchwyd i Alwyn E Jones ac Arwel Lloyd Jones am gynnig symud y meinciau i gwt y neuadd dros y gaeaf.
- iii. Eiddew yn tyfu dros yr yw – nid yw swyddogion y Parc wedi ymweld hyd yn hyn.
- iv. Llwybr Tegid – mae peth o'r gwaith torri'r gwrych wedi ei gwblhau. Cytunwyd i gael arwydd ar y bont droed a bydd Huw Antur yn cysylltu gydag aelodau. Mae'r llifogydd wedi achosi peth llanast ar y llwybr, a chytunodd Huw Antur i sicrhau fod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud.

2171 Materion ariannol: Diolchwyd i Bethan Edwards am ei hadroddiad manwl ar y sefyllfa ariannol. Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

i.	Parc Cenedlaethol Eryri – cais cynllunio'r Toiledau	£115.00
ii.	Rheolaeth Adeiladu – Toiledau	£144.00
iii.	Aelodaeth SLCC	£46.67
iv.	ICO - GDPR	£35.00
v.	Cyflog y Clerc – Hydref - a CThEM	

2172 Ceisiadau Cynllunio: NP5/71/LB43F Prys Mawr, Llanuwchllyn LL23 7UF Derbyniwyd ymddiheuriad gan Arwel Thomas o Barc Cenedlaethol Eryri am y gwall ar y cais gwreiddiol; derbyniwyd sicrwydd ganddo mai 16 gwely yw cyfanswm y cais. Yng ngoleuni'r wybodaeth hon, cytunwyd i gefnogi'r cais.

2160 Materion lleol: Cytunodd Alan Jones Evans i dynnu sylw'r Swyddogion at y broblem ar y crwb yn y ffordd wrth y troad am Dŷ'n Ddôl. Cytunodd hefyd i godi ymwybyddiaeth y Tîm Gorfodaeth Stryd at y baw cŵn ar hyd y pentref ac at y Fynwent Newydd.

2161 Y Gaiman: Gwrandawyd ar neges Ricardo Javier Evans o'r Gaiman a dderbyniodd Beryl Hughes Griffiths. Roedd brwdfrydedd i'r syniad o gyfeillio yn ddiwylliannol. Mae cysylltiadau wedi bod rhwng Llanuwchllyn a'r Wladfa ar hyd y blynyddoedd, a chytunwyd fod y Cyngor yn barod iawn i gydweithredu ar unrhyw syniadau i nerthu'r cysylltiad gwerthfawr hwn.

2162 Gohebiaeth

- a. Nodwyd yr e-bostiwyd Ymgynghoriad ar Atodiadau Cynllunio at yr aelodau.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Rhodri Jones

- b. **Ymgynghoriad** ar ffurfio un awdurdod cynllunio i Ogledd Cymru: nid oedd sylwadau gan y Cyngor oherwydd ei bod yn ymddangos fod hyn wedi ei benderfynu'n barod.
- c. **Ymatebion:** Diolchwyd i Gyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri am ymateb i ymholiadau'r Cyngor am eu cynlluniau gogyfer â'r haf nesaf: dywedwyd y bydd y ddau gorff yn siarad gyda'i gilydd cyn y Nadolig. Bydd pwerau dros dro yn dod i ben yn fuan ac mae unrhyw bwerau newydd yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru. Dywedodd Emyr Williams ei fod yn edrych ymlaen at weld Cynllun Ardal Cyngor Cymuned Llanuwchllyn.
- d. **Parc Cenedlaethol Eryri** – nodwyd derbyn cylchlythyr (e-bostiwyd)
- e. **Cyfoeth Naturiol Cymru** – nodwyd derbyn cylchlythyr (e-bostiwyd)
- f. **Gohebiaeth leol:** Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau yn y neges:
 - i. Parthed cadw at lwybrau a chadw'n glir wrth dda byw: nodwyd y sylwadau. Cytunwyd gyda'r gosodiad mai safle gwaith yw fferm ac nid lle chwarae i blant, a bod angen parchu gwrychoedd a ffensiau sy'n diogelu stoc. Roedd y Cyngor yn falch o ddeall fod llythyr yn codi ymwybyddiaeth am hyn wedi ei anfon gan Ysgol O M Edwards at rieni, a bod neges i'r perwyl hefyd ar gyfrwng cymdeithasol y rhieni. Cytunwyd, fodd bynnag, nad oes gan y Cyngor rôl mewn addysgu plant nac oedolion am eu hymddygiad.
 - ii. Parthed mynediad at Garth Bach: nodwyd y sylw a fynegwyd yn y llythyr nad oes hawl gan drigolion i fynd at Garth Bach.

2163 Partneriaeth Penllyn: Mae'r gwaith ar Ganolfan Integredig Plant ar safle'r hen Ysgol Beuno Sant yn mynd yn ei flaen. Rôl y Partneriaeth yw bod yn gyfrifol am y Brydles, ond nid oes mewnbyn i weithgareddau'r Ganolfan.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf: 1/12/20 - cyfrwng/ lleoliad i'w drefnu, yn dibynnu ar amgylchiadau'r Covid 19.